# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 19 Mawrth 2015** |
| Amser: | **08.49 - 10.50** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2684**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC** |
| Tystion: | **Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**<br>**Caroline Turner, Llywodraeth Cymru**<br>**Sanjiv Vedi, Llywodraeth Cymru**<br>**Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**<br>**Nicola Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Ail Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Richard Bettley (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Black AC.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn gofyn am eglurhad ar y ffigyrau o amgylch y diogelwch a gynigir i'r Gyllideb Llywodraeth Leol.

## 3 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 10

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Nicola Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar ei ymchwiliad i Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3.2 Cytunodd Nicola Williams i ddarparu copi o'r llythyr at gleifion yn amlinellu proses gwynion y byrddau iechyd a throi am gymorth at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.3 Cytunodd Kate Chamberlain i ddarparu ffigurau ar y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru a nifer yr unedau preifat o fewn sefydliadau'r GIG.

## 4 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 11

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Caroline Turner a Sanjiv Vedi, Llywodraeth Cymru ar ei ymchwiliad i Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Blaenraglen Waith

7.1 Cytunodd yr Aelodau ar y rhaglen waith ar gyfer tymor yr haf. Cytunodd yr Aelodau hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ynghylch Trethi Busnes.

## 8 Casglu trethi datganoledig: Dull o gynnal y gwaith craffu

8.1 Trafododd yr Aelodau y dull o gynnal y gwaith craffu ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i Gasglu Trethi Datganoledig.